# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT** **Y PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD**

## Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**
Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau pellach Deddf Iechyd 1999. Mae'r rhain yn ddarpariaethau o'r Ddeddf sy'n darparu ar gyfer cydweithrediad rhwng cyrff yr NHS a rhwng cyrff yr NHS ac awdurdodau lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn Esboniadol – tabl o'r cychwyniadau blaenorol**
Gellid ystyried defnyddio marciau ailadrodd i symleiddio rhywfaint o'r testun yn y tabl dwyieithog hwn.

**Yn dod i rym**
Ar frig y drafft fel y'i gosodwyd gerbron y Cynulliad, ceir darpariaeth ar gyfer y dyddiad y mae "yn dod i rym". Nid yw hyn yn briodol ar gyfer gorchymyn cychwyn ac felly ni ddylai gael ei gynnwys yn y fersiwn a wneir.

**Y Rhaglith**
Nid yw'n amlwg ar unwaith fod y pwer sy'n cael ei roi gan adran 63(1) o'r Ddeddf wedi'i arfer. Er bod eithriadau a chyfyngiadau wedi'u pennu mewn rhai achosion yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn, credir bod hynny'n deillio o'r pwer galluogi yn adran 67 yn hytrach nag o unrhyw beth yn adran 63(1).

**Dai Lloyd AM**
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

17 Hydref 2000